**LC1474**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

# Rheoliadau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (Corff Priodol) (Cymru) 2007

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adrannau 30 a 65 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ("y Ddeddf")(p.9) ac maent yn diffinio 'corff priodol' at ddibenion adrannau 30 i 32 o'r Ddeddf honno. Mae adran 30(1) o'r Ddeddf honno'n darparu bod ymchwil penodol a gaiff ei wneud i berson neu mewn perthynas â pherson sydd heb alluedd yn anghyfreithlon oni chaiff ei wneud yn rhan o brosiect a gymeradwywyd gan gorff priodol a'i fod yn bodloni gofynion pellach a bennir yn y Ddeddf.

## Rheol Sefydlog 11.7

Ni chafodd unrhyw bwyntiau eu nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Nid yw'r pwerau a enwir i wneud y Rheoliadau hyn mewn grym eto. Rhaid i’r prif bwerau gael eu cychwyn gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac mae Gorchymyn Cychwyn priodol yn rhan o'r un grwp o Offerynnau Statudol â'r Rheoliadau hyn. Yn y cyfamser, mae adran 13 o Ddeddf Ddehongli 1978 yn darparu'r pwer i wneud yr is-ddeddfwriaeth cyn y gorchymyn cychwyn, ond rhaid cychwyn y pwerau cyn i'r Rheoliadau ddod i rym.

Fodd bynnag, gan yr Arglwydd Ganghellor y mae'r pwer i gychwyn adran 65(1), a rhaid arfer y pwer hwnnw cyn i'r Rheoliadau hyn, a gaiff eu gwneud gan ddibynnu ar adran 65(1), ddod i rym.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**6 Mawrth 2007**